Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol



# Myfyrdod Ymarferydd

Mae yna lefelau uchel iawn o foddhad cleifion ym maes osteopatheg (>95%), ond nid yw agweddau ar ofal sy'n ymwneud â gwerthoedd, anghenion, dymuniadau a beth sy'n cyfrif neu'n bwysig i gleifion yn gwneud cystal. Drwy ystyried gwerthoedd cleifion gellir gwella canlyniadau clinigol a phrofiadau cleifion. Nod yr adnodd hwn yw helpu osteopathiaid i fyfyrio ar eu sgiliau gwneud penderfyniadau ar y cyd wrth weithio gyda gwerthodd amrywiol unigol mewn lleoliadau clinigol. Beth am roi cynnig ar hyn yn eich practis a thrafod y canfyddiadau gyda chydweithiwr(wyr) rydych yn ymddiried ynddo(ynt).

**Ychwanegwch eich sylwadau ar y tudalennau nesaf**

**1** **Wrth feddwl am eich ymgynghoriad diwethaf gyda chlaf, ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 = ddim yn dda iawn a 5 = da iawn, pa mor dda oeddech chi'n gallu gwneud y canlynol:**

**Gadael i'r claf ddisgrifio ei gyflwr yn ei eiriau ei hun (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Gwrando a gadael i'r claf ddisgrifio pethau'n glir i chi (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Deall beth oedd yn bwysig i'r claf (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Cael manylion perthnasol am fywyd neu sefyllfa'r claf a oedd yn bwysig iddo o ran ei driniaeth (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Deall pryderon a dymuniadau'r claf am ei driniaeth (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Archwilio gyda'r claf beth allai ei wneud i wella ei iechyd a'i les y tu allan i'r ymgynghoriad (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

**Trafod yr opsiynau sydd ar gael gyda'r claf, gan roi cymaint o fanylion ag yr oedd y claf yn dymuno eu cael (er enghraifft, y sail dystiolaeth ar gyfer yr opsiynau sydd ar gael) (ticiwch)**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

## 2 Yn gyffredinol, sut rydych chi'n meddwl y gwnaethoch chi? Er enghraifft, a oeddech chi'n hapus gyda'r canlyniad? (ticiwch)

| 1 Gwael | 2 Cymedrol | 3 Da | 4 Da iawn | 5 Rhagorol |
|---|---|---|---|---|

**Sylwadau pellach o ran sut aeth pethau i chi:**

## 3 Beth aeth yn dda yn yr ymgynghoriad?

## 4 Beth aeth ddim cystal yn yr ymgynghoriad?

**5** **A oedd unrhyw rwystrau a wnaeth eich atal rhag cael gwybodaeth am beth oedd yn bwysig i'r claf?**

**6** **Nawr beth?** Beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Er enghraifft, efallai y byddwch yn newid y geiriau y gwnaethoch eu defnyddio, yn gofyn cwestiwn penodol, yn ystyried rhywbeth y gwnaethon nhw ei ddweud wrth adael ac ati. Wnaethoch chi ystyried ffordd ymlaen gyda'r claf (a beth oedd hyn)?